**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 17 MEHEFIN 2025 TRWY MS TEAMS (10:00 – 10:40)**

**Aelodau'r PLIA a oedd yn bresennol:** Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol), Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol), Jassa Scott (Aelod Annibynnol), Dianne Bevan (Aelod), Bethan Price (Aelod)

**Cynrychiolydd MIAA a oedd yn bresennol:** Paula Fagan

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), David Burley (Pennaeth Busnes), David Carr (Rheolwr Cyllid)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. Datganiadau Buddiannau**

2.1 Datganodd Jassa Scott ei bod hi'n delio â staff Cymwysterau Cymru yn rhan o'i rôl yn Estyn, ond nid o ran materion TGCh. Nid oedd y Pwyllgor o'r farn bod hyn yn gyfystyr â gwrthdaro buddiannau.

**3. Darparu Gwasanaethau Cymorth TGCh i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC)**

3.1 Amlinellodd Shereen Williams brif bwyntiau'r papur. Dywedodd fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol gyda Chymwysterau Cymru wedi gweithio'n dda ac wedi bodloni anghenion CDFfC yn y gorffennol cyn y gofyniad i ddatblygu a chynnal y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP). Dywedodd nad oedd cymorth TGCh Cymwysterau Cymru yn cynnwys gwefannau na phyrth ymgynghori CDFfC, a oedd yn cael eu cynnal gan gontractwyr allanol. Roedd seiberddiogelwch ac ardystiad IASME yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd parti hefyd, ond roedd Cymwysterau Cymru yn cynorthwyo CDFfC i gyflawni'r ardystiadau hyn.

3.2 Rhoddodd y papur dri opsiwn ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth TGCh yn y dyfodol:

- Opsiwn 1 – parhau â'r trefniadau presennol gyda Chymwysterau Cymru yn darparu cymorth TGCh o ddydd i ddydd a darparwyr eraill yn delio â chreu pyrth a phlatfformau, cynnal a chadw ac uwchraddio.
- Opsiwn 2 – datblygu tîm TGCh mewnol o fewn CDFfC a chadw darparwyr eraill i ddelio â chreu pyrth a phlatfformau, cynnal a chadw ac uwchraddio.
- Opsiwn 3 – parhau â'r trefniadau presennol gyda Chymwysterau Cymru tan 2026-27 ac adolygu addasrwydd y trefniadau ar ôl i'r WEIP gael ei greu (y tybiwyd y byddai'n digwydd yn gynnar yn 2026).

3.3 Holodd Kalwant Grewal a oedd y risg i'r WEIP o dan y trefniadau presennol a amlinellwyd yn Opsiwn 1 wedi cael ei chofnodi fel risg ar gofrestrau risgiau CDFfC

ac, os felly, beth oedd y camau lliniarol. **Cytunwyd** y byddai cofrestr risgiau CDFfC yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn ymdrin â'r risgiau i'r WEIP yn gysylltiedig â pharhau â'r trefniadau cymorth TG presennol.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30/06/25

3.4 O ran yr opsiwn i ddatblygu gwasanaethau TGCh mewnol yn CDFfC, ystyriwyd y byddai angen cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn ac y byddai'n dibynnu ar recriwtio staff TGCh cymwysedig. Byddai hyn yn agored i risg prinder sgiliau posibl ac anallu i recriwtio staff addas o ganlyniad. Dywedodd Jassa Scott y gallai ofyn i Bennaeth trefniadau TGCh mewnol Estyn drafod yr opsiwn gyda CDFfC. **Cytunwyd** y byddai Jassa Scott yn rhoi manylion Pennaeth TGCh Estyn i Shereen Williams.
**Gweithredu:** Jassa Scott **Erbyn:** 31/07/25

3.5 Nodwyd bod gan CDFfC yswiriant atebolrwydd seiber o £25,000 ar hyn o bryd ond y gellid ei gynyddu i £250,000 am bremiwm ychydig yn uwch. **Cytunwyd** y dylai CDFfC gynyddu ei yswiriant seiberddiogelwch i £250,000.
**Gweithredu:** Pennaeth Busnes **Erbyn:** 30/09/25

3.6 Trafodwyd yr agweddau cyfreithiol ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol gyda Chymwysterau Cymru a ph'un a oedd yn gyfreithiol rwymol bod rhaid i Gymwysterau Cymru ddarparu gwasanaeth i CDFfC heb ei derfynu ar fyr rybudd. Roedd angen ystyried atebolrwydd hefyd pe byddai tor diogelwch data ac ati. Ystyriwyd bod angen i unrhyw agweddau cyfreithiol ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gael eu diffinio'n fwy eglur. **Cytunwyd** y dylai CDFfC anfon y Cytundeb Lefel Gwasanaeth at ei gynghorydd cyfreithiol i'w adolygu, gan gynnwys unrhyw gyngor ar sut gellid cryfhau'r ochr gyfreithiol os oedd modd.
**Gweithredu:** Prif Weithredwr **Erbyn:** 31/07/25

3.7 Ystyriwyd y dylai CDFfC adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chymwysterau Cymru hefyd i bennu a yw'n parhau i fod yn addas i'r diben yng ngoleuni'r newidiadau i ofynion TGCh CDFfC. **Cytunwyd** y byddai CDFfC yn adolygu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn fewnol ac yn anfon copi at Paula Fagan er mwyn i MIAA ei adolygu.
**Gweithredu:** Pennaeth Busnes **Erbyn:** 30/06/25

3.8 **Cytunodd** y Pwyllgor mai'r ffordd orau ymlaen oedd Opsiwn 3, sef parhau â Chymwysterau Cymru hyd nes i'r WEIP gael ei greu ac yna adolygu addasrwydd y trefniadau cymorth TGCh, gan ddefnyddio cyllid WEIP o bosibl ar gyfer costau staff i recriwtio staff TGCh mewnol. Ystyriwyd y byddai'r penderfyniad hwn yn amodol ar adolygu'r trefniadau cymorth TGCh presennol a'u tynhau, os oes modd, yn y cyfamser.

## 4. Unrhyw Fater Arall

4.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## 5. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Gorffennaf 2025 am 9:30 a.m..